Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service



# PECYN CAIS AM SWYDD

www.tancgc.gov.uk

# Rhagarweiniad

Annwyl Ymgeisydd,

Diolch am ddangos diddordeb mewn ymuno â Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Fy ngweledigaeth i ar gyfer ein Gwasanaeth yw iddo 'I ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i gymunedau Canolbarth a Gorllewin Cymru.' Er bod gennym hanes balch o gyflawni, rydym yn gwybod bod yna le i wella bob amser.

Pan fydd pobl yn meddwl am yrfa yn y Gwasanaeth Tân ac Achub, maen nhw'n tueddu meddwl am Ymladdwyr Tân yn ymateb i ddigwyddiadau brys, ond nid Diffoddwyr Tân yn unig sy'n gwneud canolbarth a gorllewin Cymru yn lle mwy diogel.

Y tu ôl i'r sefyllfa weithredol, mae gan y Gwasanaeth ystod eang o swyddi eraill mewn gwahanol adrannau sydd naill ai wedi'u lleoli mewn swyddfa neu yn ein gweithdai, ac rydym yn cyflogi pobl mewn swyddi proffesiynol, technegol a gweinyddol.

Heb fod gennym swyddogaethau cymorth corfforaethol yn eu lle er mwyn darparu'r systemau, y prosesau a thechnoleg, ni fyddai'r Gwasanaeth yn gallu darparu'r gwasanaeth gorau posibl i'n cymunedau.

Os ydych chi'n chwilio am yrfa gydag amrywiaeth, her a chyfleoedd i symud ymlaen, ynghyd â'r holl fanteision y byddech chi'n eu disgwyl gan sefydliad gwasanaeth cyhoeddus allweddol, yna beth am ystyried ymuno â ni yn un o'n swyddogaethau cymorth arbenigol neu weinyddol?

Diolch a phob lwc,





**Craig Flannery**
Y Prif Swyddog Tân

# Buddion

Mae gweithio i'r Gwasanaeth yn agor y drws i bortffolio cyfan o fuddion all wella eich ffordd o fyw nawr ac i'r dyfodol.

Cyfraddau cyflog cystadleuol -
wedi'u hadolygu'n ddiweddar i sicrhau tegwch ar draws pob rôl; gyda chynyddrannau blynyddol hyd at frig eich band cyflog, wrth i chi feithrin gwybodaeth a magu profiad.

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol -
Cynllun pensiwn hael, gyda'r Gwasanaeth yn gwneud cyfraniad sylweddol (15.2% ar hyn o bryd) i ariannu eich ymddeoliad, yn ogystal â'r opsiwn i gynyddu eich buddion drwy brynu pensiwn ychwanegol neu fuddsoddi mewn Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY).

Gwyliau Blynyddol hael –
26 diwrnod ynghyd â gwyliau banc, gan gynyddu hyd at 33 diwrnod ar ôl 5 mlynedd o gyflogaeth.

Cynllun Hyblyg –
Cyfle i ystwytho eich oriau gwaith er mwyn helpu ymdopi â bywyd y tu allan i'r gwaith.

Parcio am ddim ar y safle

Beicio i'r gwaith

Cynllun disgownt i staff

Iechyd a Lles

- Mynediad i gynllun disgownt Cerdyn Golau Glas
- Cynllun Aberthu Cyflog Prydlesu Ceir
- Cynllun benthyca offer TG Let's Connect
- Clwb Chwaraeon a Chlwb Cymdeithasol
- Elusen Diffoddwyr Tân

Job Application Pack

Pecyn Cais am Swydd

# Sut i wneud cais

Mae'r wybodaeth a ddarperir ar y ffurflen gais yn wybodaeth allweddol a bydd yn cael ei defnyddio yn y broses o lunio rhestr fer. Mae'n bwysig felly bod y nodiadau canllaw isod yn cael eu dilyn wrth lenwi'r ffurflen gais. Bydd hyn yn sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol ar gael er mwyn gwneud penderfyniad ynghylch a fydd eich enw yn cyrraedd y rhestr fer ar gyfer cyfweliad. Bydd llunio'r rhestr fer yn cynnwys asesu'r manylion a ddarperir ar y ffurflen gais yn erbyn y meini prawf a amlinellir yn y Fanyleb Person a ddarperir.

Derbynnir ceisiadau mewn fformatau eraill pan fydd ymgeisydd yn cael anhawster i gwblhau'r ffurflen safonol o ganlyniad i anabledd.

## Beth fydd yn digwydd ar ôl i chi anfon eich cais?

Unwaith y byddwn wedi derbyn eich cais, byddwn yn gwahanu'r ffurflen monitro cyfle cyfartal na fydd yn rhan o'r broses ddethol ac yn anfon y ffurflen gais yn unig i'r adran sy'n llunio'r rhestr fer. Byddwn yn anfon cydnabyddiaeth o'i dderbyn at bob ymgeisydd.

Bydd eich cais wedyn yn cael ei asesu yn erbyn y meini prawf (mewn manyleb person) a bydd y panel sy'n llunio'r rhestr fer yn penderfynu a ellir eich cynnwys ar y rhestr fer.

Os na chaiff eich enw ei roi ar y rhestr fer ar gyfer cyfweliad, fe'ch hysbysir yn ysgrifenedig, fel arfer cyn pen chwe wythnos i'r dyddiad cau. Os nad ydych wedi clywed gennym erbyn hynny, cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda.

Os caiff eich enw ei gynnwys ar y rhestr fer ar gyfer cyfweliad, byddwch yn derbyn e-bost oddi wrthym cyn pen 2-3 wythnos i'r dyddiad cau fel arfer, yn nodi dyddiad, amser a lleoliad y cyfweliad. Bydd yr e-bost hefyd yn cynnwys manylion y profion asesu sydd i'w cynnal a bydd yn rhoi rhestr o'r ddogfennaeth y mae'n ofynnol i chi ei chario gyda chi, os yw'n berthnasol i'r rôl.

**Yn unol â gweithdrefn Recriwtio a Dethol y Gwasanaeth, mae angen datgeliad safonol fel isafswm ar gyfer pob rôl.**

**Bydd rhai rolau yn amodol ar lefelau uwch o wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, yn dibynnu ar ddyletswyddau a chyfrifoldebau'r rôl, ac fel y'u dynodir gan y Pennaeth Rheoli neu'r Adran berthnasol.**

**Lle mae gofyniad wedi'i nodi am wiriad lefel uwch gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, nodir y lefel a'r cyfiawnhad ar gyfer hyn isod:**

**LEFEL:** ........................................................................................................

**CYFIAWNHAD:** ........................................................................................................

**PARATOWYD:** **DYDDIAD ADOLYGU:**

# Manylion am y Gwasanaeth



rydym yn gwasanaethu
**4500**
cilometr sgwâr
(11,700 km$^2$)
o Gymru

Crëwyd y Gwasanaeth ym 1996 gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994, yn dilyn uno Brigadau Tân Dyfed, Powys a Gorllewin Morgannwg. Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn gwasanaethu ardaloedd y Cynghorau Sir canlynol:

City and County of Swansea / Dinas a Sir Abertawe · Cyngor Castell-nedd Port Talbot / Neath Port Talbot Council · Cyngor Sir Gâr / Carmarthenshire County Council · Cyngor Sir Penfro / Pembrokeshire County Council · Powys

Mae'r Gwasanaeth yn cyfrif am bron i ddwy ran o dair o Gymru, gan gwmpasu ardal wledig yn bennaf sy'n 11,700 km$^2$ (4,500 milltir sgwâr), gyda 650km o arfordir. Mae'r Gwasanaeth, sydd â'i Bencadlys yng Nghaerfyrddin, yn cyflogi 1300 o staff, gydag ychydig dros 1100 o'r rheini wedi'u lleoli mewn un o 58 o orsafoedd ar draws tair Isadran. Mae gan y Gwasanaeth y trydydd teneurwydd poblogaeth uchaf yng Nghymru a Lloegr ac mae yna 900,000 o bobl yn byw oddi mewn i ardal ein Gwasanaeth. Mae'r nifer hwn yn cynyddu i dros 2 filiwn yn sgil twristiaeth yn ystod misoedd yr haf.

Dyma'r trydydd Gwasanaeth Tân ac Achub mwyaf yn ddaearyddol yn y Deyrnas Unedig, yn dilyn Gwasanaethau Tân ac Achub yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae hyn ynddo'i hun yn cyflwyno ystod o heriau gwahanol.

Ceir nifer o risgiau o wahanol fath oddi mewn i ardal y Gwasanaeth, yn amrywio o'r diwydiannau petrocemegol yn Aberdaugleddau, i'r risgiau sy'n gysylltiedig ag ardaloedd poblog iawn fel Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Mae yma hefyd gymuned ffermio fawr a llawer o ddiwydiannau ysgafn eraill ar hyd ac ar led yr ardal.

Mae'r rhain, ynghyd ag arfordir helaeth a dyfrffyrdd mewndirol, yn creu rhai o'r risgiau arbenigol sydd i'w cael oddi mewn i'r Gwasanaeth.

gyda phoblogaeth o
**910,000**
yn byw mewn
**434,500**
o gartrefi

cydymffurio
**58**
o orsafoedd tân
gyda
**1350**
o staff

**402** Llawn amser
**702** Ar alwad
**23** Canolfan rheoli tân ar y cyd
**243** Staff cynorthwyol

# Proffil Swydd

Cyflog: £34,434

Mae'r Swyddog Dadansoddi Ystadegol yn chwarae rôl hanfodol o ran dadansoddi data, a chyfleu deallusrwydd risg o ansawdd uchel i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau a Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru. Mae'r rôl yn trawsnew cymhleth yn fewnwelediadau ystyrlon, gan helpu i nodi tueddiadau, cyfrannu at weithga lleihau risg a chefnogi cynllunio strategol a gweithredol.

Gan weithio o fewn yr Adran Cynllunio Rheoli Risg Cymunedol, bydd deiliad y swydd yn r yn dadansoddi amrywiaeth o ddata gweithredol a data perfformiad, yn cynhyrchu adroc statudol a rheoli, yn cynnal safonau ansawdd data ac yn cefnogi datblygiad parhaus syst phrosesau dadansoddol. Mae'r rôl hefyd yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr a phartr sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei defnyddio'n effeithiol i ysgogi penderfyniadau sy'n seil dystiolaeth ac i wella gwasanaethau.

**Proffil y person**

Rydym yn chwilio am unigolyn hynod ddadansoddol a threfnus sydd â phrofiad o reoli, d a chyflwyno data a gwybodaeth gymhleth. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn meddu a technegol cryf, yn gyfforddus yn gweithio gydag ystod o systemau data ac offer dadanso yn gallu cyfathrebu canfyddiadau'n glir i amrywiaeth o gynulleidfaoedd.

Bydd yr ymgeisydd delfrydol yn rhagweithiol, yn talu sylw i fanylion ac yn gallu blaenoriaethau cystadleuol. Byddant yn dangos barn gadarn, sgiliau cyfathrebu ymrwymiad i ddefnyddio data a mewnwelediad i gefnogi gwneud penderfyniadau effe gwelliant parhaus ar draws y sefydliad.

# Swydd-Ddisgrifiad

| | |
|---|---|
| **TEITL Y SWYDD:** | Swyddog Dadansoddi Ystadegol |
| **RHENG / RÔL:** | Gradd 7 |
| **CYFEIRNOD Y SWYDD:** | |
| **LLEOLIAD:** | Adran Cynllunio Rheoli Risg Cymunedol (CRMP). |
| **YN ATEBOL I:** | Rheolwr  Data |
| **PRIF DDIBEN Y SWYDD:** | Bydd y Swyddog Dadansoddi Ystadegau a Risg yn darparu gwasanaeth proffesiynol, ansoddol, ystadegol a dadansoddol i bob adran yn y sefydliad, cyrff allanol ac aelodau o'r cyhoedd.<br><br>Yn benodol, bydd y Dadansoddwr Ystadegol yn darparu data a gwybodaeth sy'n cael eu rhaeadru ledled y sefydliad fel y set unigol o rifau sy'n cael eu defnyddio i nodi a llywio'r holl weithgareddau Lleihau Risg.<br><br>Yn ogystal â chynnig dadansoddiad a gwybodaeth gywir, bydd deiliad y swydd yn gyfrifol am ymchwilio, nodi a gweithredu dulliau gwell o gasglu, dadansoddi ac adrodd data.<br><br>Mae'r data a'r wybodaeth a reolir ar sawl ffurf, gan gynnwys rhifiadol, ysgrifenedig, graffigol a geo-ofodol ac maen nhw i gyd yn cael eu cynhyrchu yn dilyn dadansoddiad o ffynonellau amrywiol a helaeth o ddata, deallusrwydd a gwybodaeth fewnol ac allanol. |

| Rhestr o Gyfrifoldebau | Yn atebol i |
|---|---|
| 1. Cyfrifol am ddatblygu, gweithredu, cynnal a gwella systemau a phrosesau sy'n gysylltiedig â chasglu, dadansoddi, adrodd, lledaenu a chyfathrebu data. | Rheolwr Data |
| 2. Cyfrifol am gynnal cysylltiadau gydag Ystafell Reoli'r Gwasanaeth Tân i sicrhau bod yr holl ddata sy'n gysylltiedig â digwyddiadau yn gywir, amserol a dilys. | Rheolwr Data |
| 3. Cyfrifol am reolaeth gyffredinol y Platfform Data Tân ac Achub (FaRDaP) a rhedeg Desg Gymorth FaRDaP yn effeithiol lle mae'r cyfrifoldebau'n cynnwys rhoi cymorth arbenigol i bersonél yr orsaf, cynnal a chwblhau'r gwaith o wirio ansawdd data, ac yn olaf, coladu a chyflwyno digwyddiadau sydd wedi eu cwblhau i'r Swyddfa Gartref. | Rheolwr Data |
| 4. Cyfrifol am sicrhau bod yr holl adroddiadau a ffurflenni ystadegol Mewnol ac Allanol yn cael eu paratoi, eu dilysu a'u cyhoeddi yn unol â'r ddeddfwriaeth gyfredol ac amserlenni amser-gritigol eraill fel y'u pennir gan Lywodraeth Cymru, Cynllun Corfforaethol y Gwasanaeth, dyddiadau cau Bwrdd Adrodd Chwarterol yr Awdurdod Tân a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, ynghyd â Cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth ac ati. | Rheolwr Data |
| 5. Cyfrifol am y defnydd o feddalwedd a systemau demograffig, segmentu a phroffilio risg arbenigol i ganiatáu dadansoddi'n fanwl a gwerthuso data craidd am danau a gwrthdrawiadau ar y ffyrdd i ganfod tueddiadau, symudiadau a mannau problemus ac arwain a llywio ein Strategaethau Lleihau Risg. | Rheolwr Data |
| 6. Cyfrifol am ddarparu adroddiadau a dadansoddiadau arferol wedi'u teilwra i'r holl Benaethiaid Ymateb, gan sicrhau bod yr wybodaeth yn cael ei defnyddio fel y sylfaen dystiolaeth unigol wedi'i blaenoriaethu ar gyfer llywio gweithgareddau craidd. | Rheolwr Data |
| 7. Rheoli'r Fframwaith Cynllunio Gwelliannau a phroses adrodd yr Awdurdod Tân i sicrhau bod yr holl adroddiadau a chyflwyniadau gweithredol yn cael eu paratoi, eu gwirio o ran ansawdd a'u cymeradwyo gan randdeiliaid allweddol ar bob cam o'r broses adrodd. | Rheolwr Data |

| | |
|---|---|
| 8. Cyfrifol am gyflwyno i'r Fforwm Ymateb i Wasanaethau a Grwpiau Lleihau Risg Cymunedol, gan sicrhau bod yr holl wybodaeth a gyflwynir yn adlewyrchu'r dadansoddiad data crai a bod y naratif a gynhyrchir yn canolbwyntio ar faterion lleihau risg allweddol, yn ansoddol ac wedi'i baratoi gydag ystyriaeth briodol i ddeddfwriaeth Diogelu Data. | Rheolwr Data |
| 9. Cyfrifol am sicrhau bod y systemau meddalwedd ar gyfer gwerthuso Darpariaeth Gofal Risg a Thân yn cael eu diweddaru a bod y setiau data a ddefnyddir yn cael eu diweddaru a'u hadolygu'n rheolaidd. | Rheolwr Data |
| 10. Cyfrifol am gyflawni gwaith prosiect penodol, gan gynnwys dadansoddiad manwl a thrylwyr o setiau data crai, ymchwil helaeth a rhannu data gydag Awdurdodau Unedol a phartneriaid i ddarparu tystiolaeth lleihau risg gronynnog i gefnogi Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Paneli Partneriaeth Cymunedol a fforymau unedol tebyg. | Rheolwr Data |
| 11. Cyfrifol am fynychu a chymryd rhan mewn cyfarfodydd, seminarau, ac ati, yn ôl yr angen. Cynrychioli'r Gwasanaeth (neu Wasanaethau Tân ac Achub Cymru) mewn grwpiau a phwyllgorau Cenedlaethol a Lleol mewn perthynas â phob mater ystadegol gan gynnwys dadansoddi a rhannu data, gwybodaeth am leihau risg, FaRDaP, CFRMIS ac Offer TGCh eraill. | Rheolwr Data |
| 12. Cyfrifol am baratoi a fformatio gwybodaeth ystadegol fel y gellir ei rhannu gydag asiantaethau eraill ac aelodau o'r cyhoedd yn unol â'r ddeddfwriaeth Diogelu Data a Rhyddid Gwybodaeth. | Rheolwr Data |
| 13. Cyfrifol am ddarparu canllawiau mewn perthynas â materion ystadegol i bersonél y Gwasanaeth yn ôl yr angen, gan gynnwys cymorth i ddefnyddwyr Porth Data'r Gwasanaeth. | Rheolwr Data |
| 14. Darparu cefnogaeth a chymorth ar gyfer cynnal a sicrhau gwytnwch ffrydiau gwaith adrannol ehangach. | Rheolwr Data |
| 15. Cynnig cefnogaeth a chymorth ar gyfer cynnal a sicrhau gwytnwch ffrydiau gwaith ehangach y Gwasanaeth. | Rheolwr Data |

| | |
|---|---|
| 16. Ymrwymo i ddiogelu a hyrwyddo lles plant, pobl ifanc ac oedolion sydd mewn perygl o gael eu cam-drin a/neu eu hesgeuluso yn ein cymunedau ehangach drwy roi gwybod am bryderon i Swyddog Diogelu'r Gwasanaethau a/neu'r Tîm Diogelu. | Rheolwr Data |
| 17. Ymgymryd â dyletswyddau eraill sy'n dod o fewn pwrpas y swydd. | Rheolwr Data |

**GWASANAETH TÂN AC ACHUB CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU**

**MANYLEB Y PERSON**

| | |
|---|---|
| **TEITL Y SWYDD** | Swyddog Dadansoddi Ystadegol |
| **LLEOLIAD** | Pencadlys y Gwasanaeth, Caerfyrddin |
| **GRADD** | Gradd 7 |
| **ADRAN** | Adran Cynllunio Rheoli Risg Cymunedol (CRMP). |
| **GWIRIAD DBS** | |

Sicrhewch eich bod yn rhoi sylw i bob un o'r gofynion canlynol ar eich Ffurflen Gais gan y byddant yn cael eu defnyddio i lunio rhestr fer o ymgeiswyr. Dylech gynnwys tystiolaeth sy'n ei gwneud yn amlwg bod eich sgiliau, eich gwybodaeth, eich profiad a'ch galluoedd yn bodloni gofynion yr holl feysydd sy'n berthnasol i'r swydd.

| **Ffactor** | **Tystiolaeth** | **Hanfodol/ Dymunol** | **Dull Asesu** |
|---|---|---|---|
| **Cymwysterau** | Gradd mewn maes pwnc perthnasol sy'n gysylltiedig â'r swydd hon a/neu brofiad perthnasol o ddehongli, dadansoddi a chyflwyno data ar y lefel ofynnol. | **Hanfodol*** | **Ffurflen gais a Thystysgrifau** |
| | Trwydded Yrru Gyfredol | **Hanfodol*** | |
| **Gwybodaeth** | Gwybodaeth a dealltwriaeth o systemau cronfeydd data fel Microsoft SQL, Access neu unrhyw gynnyrch cronfa ddata gymesur cysylltiedig. | **Hanfodol*** | **Ffurflen gais a Chyfweliad** |
| | Gwybodaeth am systemau meddalwedd dadansoddi gwybodaeth, megis Excel, Power-BI neu systemau tebyg a sut i'w cymhwyso i ddarparu gwybodaeth gadarn am leihau a rheoli risg. | **Hanfodol*** | |
| | Gwybodaeth am reoli, dadansoddi a dehongli data a gwybodaeth gymhleth i lywio penderfyniadau ac adrodd. | **Hanfodol*** | |
| | Gwybodaeth am y systemau cyffredinol a'r pecynnau meddalwedd a ddefnyddir ledled ardal y Gwasanaeth. | Dymunol | |
| | Gwybodaeth am raglenni meddalwedd systemau gwybodaeth graffigol a mathau o ddata mapiau digidol. | Dymunol | |
| | Dealltwriaeth a gwybodaeth o'r gwaith a wneir gan yr Adran Cynllunio Rheoli Risg Cymunedol (CRMP). | Dymunol | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Profiad** | Tystiolaeth y gellir ei phrofi o reoli, dadansoddi a dehongli data a gwybodaeth gymhleth i lywio penderfyniadau ac adrodd.<br><br>Profiad o ddefnyddio a chynnal meddalwedd ystadegol gan gynnwys SQL / Microsoft Access i gynhyrchu adroddiadau ystadegol.<br><br>Profiad o systemau sy'n seiliedig ar wybodaeth, megis Excel, Power-BI a systemau tebyg a sut i'w cymhwyso i ddarparu gwybodaeth gadarn am leihau a rheoli risg.<br><br>Tystiolaeth o'r gallu i weithio'n effeithiol i derfynau amser tynn.<br><br>Profiad o ddelio ag amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd, yn aml yn darparu gwybodaeth gymhleth a sensitif. | **Hanfodol***<br><br>**Hanfodol***<br><br>**Hanfodol***<br><br>**Hanfodol***<br><br>**Hanfodol*** | **Ffurflen gais a Chyfweliad** |
| **Sgiliau Cysylltiedig â'r Swydd / Sgiliau Personol** | Y gallu i roi arweiniad a chyngor ynglŷn â choladu a dadansoddi data, yn ogystal â sefydlu gofynion rheoli perfformiad a data ystadegol<br><br>Parodrwydd i fagu sgiliau a chymwysterau newydd a nodwyd fel rhai sy'n berthnasol i'r rôl.<br><br>Y gallu i weithio'n effeithiol mewn amgylchedd prysur a blaenoriaethu gofynion lefel uchel sy'n gwrthdaro.<br><br>Y gallu i weithio fel aelod o dîm.<br><br>Y gallu i weithio ar eich menter eich hun.<br><br>Ymagwedd frwdfrydig ac ymroddedig at ddarparu gwasanaeth o safon.<br><br>Sgiliau trefnu da.<br><br>Profiad o reoli llinell. | **Hanfodol***<br><br>**Hanfodol***<br><br>**Hanfodol***<br><br>**Hanfodol***<br><br>**Hanfodol***<br><br>**Hanfodol***<br><br>**Hanfodol***<br><br>Dymunol | **Ffurflen gais a Chyfweliad** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfathrebu** | Sgiliau cyfathrebu da yn ysgrifenedig ac ar lafar<br><br>Sgiliau llafar ac ysgrifenedig Saesneg<br><br>Sgiliau llafar ac ysgrifenedig Cymraeg<br><br>Sgiliau cyflwyno | **Hanfodol***<br><br>**Hanfodol***<br><br>Dymunol<br><br>Dymunol | **Ffurflen gais a Chyfweliad** |

Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

www.tancgc.gov.uk